



**2.00yp Dydd Iau 18 Ionawr 2018**  
**Y Crochan, Theatr Y Ffwrnes, Llanelli**

**COFNODION**

**Yn bresennol**

<b>Enw</b>	<b>Sefydliad</b>
Barry Liles (Cadeirydd)	Coleg Sir Gâr
Cyng. Emlyn Dole (Is-gadeirydd)	Cyngor Sir Caerfyrddin
Wendy Walters	Cyngor Sir Caerfyrddin
Huwel Manley	Cyfoeth Naturiol Cymru
Rob Quin	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Uwch-Arolygydd Gary Mills	Heddlu Dyfed Powys
John Cook	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Jane Davidson	Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
Carys Wynne Morgan	Cyngor Celfyddydau Cymru
Ros Jervis	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Athro Jean White	Llywodraeth Cymru
Marie Mitchell	Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr
Carys Morgans	Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd
Cyng. Jan Curtice	Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Sian-Marie James	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**Hefyd yn bresennol**

<b>Enw</b>	<b>Sefydliad</b>
Gwyneth Ayers	Cyngor Sir Caerfyrddin
Kate Thomas	Cyngor Sir Caerfyrddin
Joanna Jones	Cyngor Sir Caerfyrddin
Wendy Phillips	Cyngor Sir Caerfyrddin
Amy Richmond	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**

**Ymddiheuriadau**

<b>Enw</b>	<b>Sefydliad</b>
Mark James	Cyngor Sir Caerfyrddin
Bernardine Rees	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Sarah Jennings	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Polly Sills-Jones	Cydlynnydd Rhanbarthol Cynllun Llesiant

- Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Barry Liles, a chyflwynodd pawb ei gilydd o gwmpas y bwrdd.

- Nododd Gwyneth Ayers fod Barry Liles ac Emlyn Dole wedi mynychu cyfarfod Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau y Cyngor yr wythnos diwethaf, pan gytunwyd y byddai aelodau etholedig yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn arsylwi. Gofynnwyd os gallai'r pwyllgor cyfan fynychu un cyfarfod gyda'i gilydd, felly mae lleoliad cyfarfod mis Mawrth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi newid i'r Ystafelloedd Caer ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, er mwyn darparu ar gyfer hyn.

<b>GWEITHRED:</b>	<b>Tîm Cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus</b> i anfon manylion diweddaraf y cais am gyfarfod mis Mawrth.
-------------------	--

- Diolchodd Barry Liles i John Cook am ei gyfraniad at Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin a dymunodd ymddeoliad hir, iach a hapus iddo.
- Diolchodd Barry Liles i Adrian Nicholas hefyd (yn ei absenoldeb) am ei gyfraniad at Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin a dymunodd yn dda iddo yn ei ymddeoliad ar ran Aelodau'r Bwrdd.

## 2. Cofnodion a Materion yn Codi: 16 Tachwedd 2017

- Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir.
- Cam Gweithredu 1 - o ganlyniad i'r newidiadau yn nhrefn cyfarfod mis Ionawr, mae'r mater ynghylch rhannu gwybodaeth wedi ei ohirio tan cyfarfod mis Mawrth.
- Cam Gweithredu 3 - Nododd Kate Thomas fod papur briffio wedi'i ddsbarthu i'r pum sefydliad cyfrifol, yn gofyn am ymateb ynghylch cyfraniad cyllidebau ar gyfer Adolygiad o Ddyladdiadau Domestig. Derbyniwyd dau ymateb: Cytunodd y Cyngor i gyfrannu ynghyd â'r pedwar sefydliad arall; dywedodd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol nad yw ei bolisi cenedlaethol yn caniatáu cyfrannu'n ariannol at gostau, ond byddai'n parhau i gefnogi mewn ffyrdd eraill. Rydym yn aros am ymateb gan y Bwrdd Iechyd, y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Heddlu.

<b>GWEITHRED:</b>	<b>Rob Quin, Sian-Marie James a Gary Mills</b> i ymateb i'r adroddiad cryno a ddsbarthwyd ynghylch cost yr Adolygiad o Ddyladdiadau Domestig i'r partneriaid statudol diogelwch cymunedol, cyn gynted ag y bo modd.
-------------------	---

- Cam Gweithredu 5 - Anfonwyd ymateb at Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro, fel y cytunwyd. Mae Ceredigion hefyd wedi derbyn y gwahoddiad, ac awgrymwyd y dylid gwahodd Powys hefyd. Gobeithir trefnu cyfarfod ar y cyd ym mis Mehefin 2018, ar ôl i bob ardal gymeradwyo ei Gynlluniau Llesiant.
- Cam Gweithredu 11 - Mae'r hyfforddiant ar gyfer carfan gyntaf 'Gwneud i Bob Cysylltiad Gyfrif' wedi ei drefnu ar gyfer 26 Ionawr 2018.
- Nododd Gary Mills fod cyfarfod cychwynnol ynghylch Heol Yr Orsaf wedi cael ei gynnal .

## 3. Cynllun Llesiant a

### 4. Chynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin - Cynllun Cyflawni

Cafodd eitemau 3 a 4 ar yr agenda eu hystyried gyda'i gilydd.

- Gorffennodd ymgynghoriad y Cynllun Llesiant ar 3 Ionawr 2018. Cafwyd 75 o ymatebion a 11 ymateb gan sefydliadau.
- Gwnaed newidiadau lle bo hynny'n briodol. Darparodd yr adroddiad sylfaen ar gyfer y drafodaeth.
- Er y codwyd pryderon ynghylch oed y mwyafrif o'r ymatebwyr, rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau y cafwyd ymgysylltiad â phobl ifanc, Cymdeithas Pobl Fyddar a grwpiau eraill yn ystod datblygiad y Cynllun Llesiant.
- Ar ôl trafodaeth, cytunwyd i wahanu'r camau gweithredu tymor hwy yn ddau, sef camau gweithredu yn y tymor canolig a dyheadau yn y tymor hir.

- Cytunwyd mewn egwyddor y byddai aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cymryd perchnogaeth dros y grwpiau darparu.

<b>GWEITHRED:</b>	<b>Tîm Cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus</b> i sicrhau bod unrhyw gyfeiriadau at Ros Jervis, Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, fel Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu newid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn y Cynllun
-------------------	---

- Cytunwyd mai aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y byddai'n arwain ar y cyfan, pan gaiff ei sefydliad ei enwi fel Arweinydd neu Is-gadeirydd unrhyw Grŵp Darparu, a byddai'n bennaf gyfrifol am adrodd am y cynnydd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ond byddai'n dderbyniol i aelod weithiwr arall o'i sefydliad gyflawni'r rôl weithredol ar ei ran pan fo hynny'n briodol.
- Cytunwyd i newid 'nature connectedness' i 'connection with nature' (Maent yn y cofnodion Saesneg).
- Trafodwyd y broblem ynghylch y defnydd o blastig, ond cytunwyd bod hyn eisoes yn cael ei gynnwys yn y testun presennol.
- Cytunwyd i newid pennawd y cam gweithredu tymor byr ar gyfer ymyrraeth gynnar o 'Codi Ymwybyddiaeth' i 'Newid y Model Darparu'. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd y byddai Hywel Dda a Chyngor Sir Caerfyrddin yn gadeiryddion ar y cyd.

<b>GWEITHRED:</b>	<b>Tîm Cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus</b> i newid arweinydd y grŵp darparu a'r Is-gadeirydd fel y cytunwyd yn y cyfarfod, fel y cadarnhawyd gan aelodau perthnasol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
<b>GWEITHRED:</b>	<b>Tîm Cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus</b> i newid Is-gadeirydd y grŵp darparu ymyrraeth gynnar, fel bod y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn ei gyd-gadeirio.
<b>GWEITHRED:</b>	<b>Tîm Cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus</b> i sicrhau bod partneriaid datganoledig a phartneriaid heb eu datganoli yn bresennol ynghylch unrhyw waith a gaiff ei ddatblygu o ran caffael.

- Cafwyd trafodaeth ynghylch sut i annog aelodau'r cyhoedd i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau. Nododd Jane Davidson fod y Brifysgol wedi datblygu tystysgrif sy'n ymwneud â'r saith amcan. Yn wreiddiol, roedd hyn i fod i gael ei threialu ar 20 o bobl, fodd bynnag mae eisoes wedi'i chwblhau gan 140 o bobl. Nid ydym yn gwybod eto os bydd hynny ar gael ar gyfer partneriaid.
- Nododd Jean White fod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu cronfa ranbarthol gyda'r meini prawf ar gyfer helpu gydag ymgysylltu yn y dyfodol. Dywedodd Gwyneth Ayers fod hyn yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i ariannu rôl y Cydgysylltydd Cynllun Llesiant Lleol ac nid yw'r trafodaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf wedi'u cynnal eto. Cytunwyd y dylid trafod y mater hwn yn y cyfarfod ar y cyd â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Dywedwyd bod y sesiynau Golwg Sir Gâr ar Ymgynghori ynghylch Cyllideb y Cyngor yn ffordd wych o ymgysylltu â phobl ifanc, a gellid defnyddio'r model hwn ar gyfer gweithgarwch y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol.
- Mae dogfen y Cynllun Cyflawni yn fan cychwyn, a bydd angen cynnal trafodaethau â sefydliadau arweiniol er mwyn datblygu'r gwaith hwn.

<b>GWEITHRED:</b>	<b>Tîm Cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus</b> i wneud newidiadau angenrheidiol i'r Cynllun Llesiant yn seiliedig ar drafodaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a bydd y cynllun yn cael ei ailddosbarthu i'w gymeradwyo'n derfynol erbyn diwedd mis Ionawr, cyn i'r broses wleidyddol ddechrau. Cytunwyd i ystyried y diffyg ymateb fel cymeradwyaeth.
-------------------	--

## 5. Papur trafod Newyddion Sir Gâr

- Dosbarthwyd papur sy'n amlinellu'r trefniadau presennol a'r cyfraniadau cyllido gan bartneriaid.

- Gwnaethpwyd ymholiadau ynghylch a fydd cyllidwyr presennol Newyddion Sir Gâr yn cytuno i sicrhau bod £2k ar gael ar gyfer gweithredu. Cytunwyd y dylid cyflwyno cynigion i'r bwrdd cyn gwneud ymrwymiad.
- Nodwyd bod gan rai sefydliadau becynnau 'Croeso i Sir Gaerfyrddin' ar gael eisoes, fodd bynnag mae sicrhau eu bod yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf yn broblem.
- Ar ôl trafodaeth, penderfynodd pawb, yn hytrach na rhoi gorau i gyhoeddi'r papur am 12 mis fel yr awgrymwyd yn yr adroddiad, dylid rhoi'r gorau i gyhoeddi Newyddion Sir Gâr yn gyfan gwbl.

<b>GWEITHRED:</b>	<b>Grŵp Cyfathrebu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus</b> i gyflwyno cynigion ar unrhyw gyllid sydd ei angen ar gyfer Grŵp Cyfathrebu y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus arfaethedig, yng nghyfarfod mis Mawrth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
<b>GWEITHRED:</b>	<b>Grŵp Cyfathrebu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus</b> i roi'r gorau i gyhoeddi Newyddion Sir Gâr ac yn penderfynu ar y ffordd orau o gyfathrebu â'r cyhoedd yn y dyfodol

## 6. Gweithdy Adolygu Partneriaeth

- Rhannwyd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i dri gweithdy, er mwyn ystyried beth yw'r anghenion a'r trefniadau ar gyfer cyflawni gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Cynllun Llesiant yn y dyfodol.
- Yn dilyn trafodaethau'r gweithdai, cytunwyd y dylid diddymu'r Grwpiau Thematig sy'n ymwneud â Theuluoedd a Chymunedau Iach, a'r Cymunedau Ffyniannus a Chryf.
- O ganlyniad i ddyletswyddau statudol grŵp thematig y Cymunedau Teg a Diogel, mae angen rhoi ystyriaeth bellach o ran sut i weithredu, ei ddyletswyddau statudol, aelodaeth, sicrhau cysylltiadau cryfach gyda byrddau eraill e.e. y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol a Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.
- Bydd y ffrydiau gwaith presennol yn dod i ben a bydd y gwaith yn cael ei osod ar gyfer y Grwpiau Darparu. Bydd dyddiad terfynu yn cael ei osod ar gyfer adroddiad terfynol
- Bydd grwpiau gorchwyl a gorffen yn cael eu sefydlu ar gyfer cymryd camau, ac adroddir yn rheolaidd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Cadarnhaodd partneriaid na fyddai unrhyw arian na staff penodedig ar gael ond rhoddir amser i staff gyflawni'r gwaith. Byddai hyn yn gyfle datblygu da i'r staff gefnogi'r grwpiau darparu. Byddai'r cyllid ar sail y cynnig; cadarnhaodd CNC fod ganddo rywfaint o arian ar gael ar gyfer pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Mae angen i'r cylch gwaith ganiatáu i bob grŵp fod yn hyblyg o ran sut y maent yn datblygu, oherwydd gall fformat penodedig atal cynnydd. Bydd angen iddynt ganfod a chysylltu â sefydliadau/grwpiau ehangach pan fo hynny'n berthnasol, er mwyn atgyfnerthu'r gwaith.

<b>GWEITHRED:</b>	<b>Tîm Cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus</b> i baratoi cynnig yn seiliedig ar drafodaeth gweithdy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar strwythurau'r dyfodol, ac yn ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Mawrth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gael sêl bendith.
-------------------	--

## 7. Unrhyw Fater Arall

- Dywedodd Marie Mitchell fod Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr wedi cael ei gwahodd i gyfarfod â staff Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn y cyfarfod, ystyrir sut y mae egwyddorion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael eu gweithredu.
- Nododd Jean White fod yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi'i gyhoeddi, a bydd y gwaith ar strategaeth y GIG a Gweithio Integredig mewn Gofal Cymdeithasol yn cael ei gyflawni yn ystod yr 8-10 wythnos nesaf. Disgwylir i hyn gael ei lansio ym mis Mehefin 2018.

- Dywedodd Jane Davidson fod Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau wedi sefydlu comisiwn bwyd a ffermio ledled y DU i edrych ar fwyd a ffermio cynaliadwy ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd. Bydd yn gweithio gyda'r swyddog arweiniol, sy'n ffermwr organig o Fynwy, er mwyn rhoi cyfle i drafod beth yw pwrpas y comisiwn, a galluogi pobl i roi tystiolaeth, ac yn enwedig edrych ar gyfleoedd sy'n ymwneud â'r plât cyhoeddus, gan ddefnyddio cynnyrch tymhorol lleol e.e. yng Nghaerfyrddin. Bydd cyfarfod yn cael ei gynnal yng nghanol mis Chwefror ac anfonir gwahoddiad i bob partner.
- Nododd Joanna Jones fod cynnig ariannu drafft wedi'i gyflwyno i CNC, sy'n ymwneud â defnyddio'r awyr agored ar gyfer iechyd a llesiant, a byddai'n ddefnyddiol i gael cefnogaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus os yw'n cyrraedd y cam nesaf. Mae'r cynnig 'Awyr Iach' yn adeiladu ar y fenter Cerdded Iach, gan wella'r mynediad at gymunedau penodol o fewn ardaloedd peilot, y gampfa werdd ac ati.

<b>GWEITHRED:</b>	<b>Joanna Jones</b> i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am sut y mae'r cais am gyllid at CNC ar gyfer y cynllun 'Awyr Iach' yn dod yn ei flaen
-------------------	---

Caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ar 8 Mawrth yn Ystafelloedd Caer, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Lôn Pisgwydd, Caerfyrddin

### Crynodeb o Gamau Gweithredu – Cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:

	Crynodeb o Bwyntiau Gweithredu	Pwy	Diweddariad
<b>Pwyntiau o gyfarfod 18 Ionawr 2018</b>			
1	I anfon manylion diweddaraf y cais am gyfarfod mis Mawrth.	<b>Tîm Cefnogi'r BGC</b>	Wedi ei gwblhau
2	I ymateb i'r adroddiad cryno a ddosbarthwyd ynghylch cost yr Adolygiad o Ddynladdiadau Domestig i'r partneriaid statudol diogelwch cymunedol, cyn gynted ag y bo modd.	<b>Rob Quin, Sian-Marie James a Gary Mills</b>	Derbyniwd cadarnhad o gefnogaeth ariannu gan Heddlu Dyfed Powys a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Y ddau gorff Prawf wedi cadarnhau nad ydynt yn gallu gwneud cyfraniad ariannol. Aros am ymateb gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.
3	I sicrhau bod unrhyw gyfeiriadau at Ros Jervis, Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, fel Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu newid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn y Cynllun	<b>Tîm Cefnogi'r BGC</b>	Wedi ei gwblhau
4	I newid arweinydd y grŵp darparu a'r Is-gadeirydd fel y cytunwyd yn y cyfarfod, fel y cadarnhawyd gan aelodau perthnasol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.	<b>Tîm Cefnogi'r BGC</b>	Wedi ei gwblhau
5	I newid Is-gadeirydd y grŵp darparu ymyrraeth gynnar, fel bod y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn ei gyd-gadeirio.	<b>Tîm Cefnogi'r BGC</b>	Wedi ei gwblhau
6	I sicrhau bod partneriaid datganoledig a phartneriaid heb eu datganoli yn bresennol ynghylch unrhyw waith a gaiff ei ddatblygu o ran caffael.	<b>Tîm Cefnogi'r BGC</b>	I'w ystyried fel rhan o weithredu'r cynllun llesiant
7	I wneud newidiadau angenrheidiol i'r Cynllun Llesiant yn seiliedig ar drafodaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a bydd y cynllun yn cael ei ailddosbarthu i'w gymeradwyo'n derfynol erbyn diwedd mis Ionawr, cyn i'r broses wleidyddol ddechrau. Cytunwyd i ystyried y diffyg ymateb fel cymeradwyaeth.	<b>Tîm Cefnogi'r BGC</b>	Wedi ei gwblhau
8	I gyflwyno cynigion ar unrhyw gyllid sydd ei angen ar gyfer Grŵp Cyfathrebu y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus arfaethedig, yng nghyfarfod mis Mawrth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.	<b>Grŵp Cyfathrebu BGC</b>	I'w ystyried gan y Grŵp Cyfathrebu BGC
9	I roi'r gorau i gyhoeddi Newyddion Sir Gâr ac yn penderfynu ar y ffordd orau o gyfathrebu â'r cyhoedd yn y dyfodol.	<b>Grŵp Cyfathrebu BGC</b>	I'w ystyried gan y Grŵp Cyfathrebu BGC
10	I baratoi cynnig yn seiliedig ar drafodaeth gweithdy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar strwythurau'r dyfodol, ac yn ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Mawrth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gael sêl bendith.	<b>Tîm Cefnogi'r BGC</b>	I'w drafod yng nghyfarfod mis Mawrth y BGC
11	I roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am sut y mae'r cais am gyllid at CNC ar gyfer y cynllun 'Awyr Iach' yn dod yn ei flaen	<b>Joanna Jones</b>	Parhaus